Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 25 Hydref 2021
Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu: 17 Tachwedd 2022

# Ymateb i: Cyd-archwiliad thematig o driniaeth cyffuriau yn y gymuned, a gwaith adferol gyda phobl dan oruchwyliaeth

Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad: 18 Awst 2021

**CYFLWYNIAD**

Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yw'r arolygydd annibynnol o wasanaethau troseddau a phrawf ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf a throseddau ieuenctid wrth weithio gydag oedolion a phlant.

Mewn ymateb i'r adroddiad, mae'n ofynnol i HMPPS/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a yw argymhellion wedi cael eu cytuno, eu cytuno'n rhannol neu heb eu cytuno (gweler y categorïau isod). Pan gytunir ar argymhelliad neu pan gytunir arno yn rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau a gweithredoedd penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae camau gweithredu yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol a nodir perchennog ac amserlen pob cam yn glir. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan Arolygaeth Prawf EM. Bydd cynnydd yn erbyn gweithredu a darparu'r cynlluniau gweithredu yn cael eu monitro gan HMPPS/MoJ ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Wasanaeth Arolygaeth Prawf EM.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylw ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunir â’r holl argymhelliad, mae'n bosibl ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb egluro'n glir sut y bydd yr argymhelliad yn cael ei gyflawni ynghyd ag amserlenni. Dylai camau gweithredu fod mor SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amser-rhwymedig) â phosibl. Dylai camau gweithredu fod yn ddigon penodol i olrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn rhannol | Cytunir â rhan o'r argymhelliad yn unig, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy a bydd yn cael ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Mae'n rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu ynghyd â chamau gweithredu SMART ac a fydd yn cael ei olrhain ar gyfer cynnydd.<br>Mae'n **rhaid** bod esboniad pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad - mae'n rhaid i hwn ddatgan yn glir a yw hyn oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |
| Ni Chytunwyd | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni fydd yn cael ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Mae'n rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir y rhesymau pam rydym wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>Mae'n **rhaid** bod esboniad pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad - mae'n rhaid i hwn ddatgan yn glir a yw hyn oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

| 1.<br>Rhif yr Argymhelliad | 2.<br>Argymhelliad | 3.<br>Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol/ Ni chytunwyd | 4.<br>Ymateb<br>Cam gweithredu a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5.<br>Perchennog Cyfrifol (gan gynnwys unigolion a enwir a'u rôl weithredol neu adran) | 6.<br>Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru i: | | | | | |
| 1 | Comisiynu gwerthusiad strwythuredig, gan gynnwys costau a manteision, o fodelau cyd-gomisiynu iechyd a chyfiawnder integredig ar gyfer gwasanaethau triniaeth cyffuriau ac adfer ledled Cymru a Lloegr a gweithredu arfer gorau . | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) wedi treialu Carchar Adfer i ddefnyddwyr Cyffuriau yng Ngharchar EM Holme House sy'n cymryd ymagwedd system gyfan at fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, gyda phartneriaid iechyd a chyfiawnder yn cydweithio i gyd-gomisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â chyflenwi cyffuriau, y galw amdanynt ac adferiad yn sgil camddefnyddio sylweddau. Bydd y peilot yn destun gwerthusiadau effaith, proses ac economaidd a chaiff y canfyddiadau eu cyhoeddi a'u rhannu ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.<br><br>Mae gwerthusiadau annibynnol ar gyfer prosiect ADDER (*Addiction, Diversion, Disruption, Enforcement and Recovery*) a arweinir gan y Swyddfa gartref (mae'r prosiect hwn yn cynnwys Cymru) a Chyflymwyr Seiliedig ar Le wedi'u comisiynu, gyda MoJ/HMPPS a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn bartneriaid allweddol yn y gwaith hwn. Bwriedir ei gyhoeddi hwn Hydref 2023.<br><br>Camau gweithredu i'w cymryd cyn cyhoeddi gwerthusiad 2023:<br><br>• Adnewyddu llywodraethu Iechyd cenedlaethol – cryfhau llywodraethu partneriaeth i gefnogi rhannu a gweithredu cyd-gomisiynu arferion da a dysgu ar draws HMPPS a rhwng adrannau'r Llywodraeth<br><br>Darperir cefnogaeth i ranbarthau'r Gwasanaeth Prawf gan Raglen Diwygio'r Gwasanaeth Prawf i hwyluso ymgorffori<br>• timau comisiynu rhanbarthol newydd yn effeithiol<br><br>Mae DHSC wedi comisiynu gwerthusiad o'r modd y gweithredir grantiau dadwenwyno cleifion mewnol a chyffredinol a ariennir gan | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac | Hydref 2023<br><br>Ebrill 2022<br><br>Gorffennaf 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | y pecyn ariannu ychwanegol o £80 miliwn a ddarparwyd eleni ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau triniaeth ar gyfer cyffuriau ledled Lloegr. Bydd yn canolbwyntio ar yr effaith y mae cyllid yn ystod y flwyddyn yn ei chael ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau effeithiol. Bydd DHSC hefyd yn monitro newidiadau mewn ystod o ddangosyddion, gan gynnwys darparu gwasanaethau triniaeth ac adfer a pharhad gofal rhwng carchardai a thriniaeth, sy'n deillio o'r cyllid ychwanegol hwn. | Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae'r Gwerthusiad o Broses Carchar Adfer i ddefnyddwyr Cyffuriau (DRP) wedi'i gwblhau. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) bellach yn y camau cwmpasu a darganfod ar gyfer y broses a'r gwerthusiadau. Mae'r MoJ yn ymgynghori gyda'r Hwb Gwerthuso yn ogystal â chydag arbenigwyr academaidd yn y maes i ddeall y ffordd orau o ddadansoddi effaith y DRP a'r hyn a all ddeillio ohono. Rhagwelir y bydd yr effaith a'r gwerthusiad economaidd yn cael eu cyhoeddi yn hwyr yn 2023.<br><br>Mae'r llywodraethu aml-asiantaeth ar ei newydd wedd wedi'i sefydlu, a disgwylir i'r Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol newydd gael ei gyhoeddi yn Hydref 2022. Am y tro cyntaf mae pobl dan ofal y gwasanaeth prawf o fewn cwmpas y cytundeb. Mae hwn yn gam cadarnhaol sy'n cefnogi'r uchelgeisiau i sicrhau bod pobl sy'n gadael y carchar a phobl sydd ar orchmynion cymunedol yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd priodol ac amserol sy'n bodloni eu hanghenion ac sy'n cyfrannu at lai o aildroseddu ac at amddiffyn y cyhoedd. Cynhaliwyd y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Uwch Ar Draws Llywodraeth cyntaf ym mis Tachwedd 2021. Mae bellach yn cwrdd yn rheolaidd<br><br>Mae Kantar (*cwmni data, mewnwelediageathau ac ymgynghori)* wedi cael ei gomisiynu i gynhyrchu Gwerthusiad o Broses ac Effaith Prosiect ADDER a disgwylir y cyhoeddir adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn llywio gwaith a gwelliannau i gydweithio rhwng partneriaid iechyd a chyfiawnder troseddol yn y dyfodol. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | Rhagfyr 2023<br><br>Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2023<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae HMPPS yng Nghymru wedi sefydlu bwrdd camddefnyddio sylweddau mewnol, i oruchwylio a bod â chyfrifoldeb am gydlynu buddsoddiad a darpariaeth gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd yng Nghymru, ac mae'n adolygu'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn barhaus i ystyried sut y gall buddsoddiad pellach wella darparu gwasanaethau<br><br>Mae DHSC wedi comisiynu gwerthusiad o'r modd y gweithredir grantiau dadwenwyno cleifion mewnol a chyffredinol a ariennir gan y pecyn ariannu ychwanegol o £80 miliwn a ddarparwyd eleni ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau triniaeth ar gyfer cyffuriau ledled Lloegr. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd yr Uned Taclo Cyffuriau ar y Cyd Ganllawiau strategaeth gyffuriau ar gyfer partneriaid cyflenwi lleol oedd yn amlinellu'r strwythurau a'r prosesau y dylai partneriaid lleol yn Lloegr eu defnyddio i weithio gyda'i gilydd i leihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | Cwblhawyd |
| 2 | sicrhau bod strategaethau a pholisïau cydlynol ar waith i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau gyda phobl dan ofal y gwasanaeth prawf. | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Fel rhan o Ymateb Llywodraeth i adolygiad y Fonesig Carol Black, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y Llywodraeth gyfan i leihau'r cyflenwad a'r galw am gyffuriau. Mae'n cynnwys cymorth i bobl drwy driniaeth ac adferiad, gan gynnwys yn y System Cyfiawnder Troseddol, ac ymateb hyd yn oed yn fwy llym i gadwyni cyflenwi troseddol a'r galw sy'n gyrru'r marchnadoedd anghyfreithlon hyn.<br><br>Bydd MoJ a HMPPS yn adolygu ein gwaith i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Strategaeth Gyffuriau'r Llywodraeth a blaenoriaethau ar draws y system gyfan..<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth a bydd yn sicrhau bod HMPPS Cymru yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o adolygu eu Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019 - 22. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd | Rhagfyr 2021<br><br>Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd, sef yr ymateb sylweddol ffurfiol i adolygiad annibynnol y Fonesig Carol Black o gyffuriau ac mae’n derbyn ei holl brif argymhellion. Mae'n cynnwys nifer o ymrwymiadau i gefnogi pobl trwy driniaeth ac adferiad yn y carchar ac yn y gymuned, ac i amharu ar gadwyni cyflenwi troseddol a'r galw sy'n sbarduno'r marchnadoedd anghyfreithlon hyn.<br><br>Mae'r Strategaeth Gyffuriau yn cael ei hategu gan £780m mewn cyllid ar gyfer triniaeth ac adfer, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS yn buddsoddi £120m ohono dros y tair blynedd nesaf i sicrhau bod pobl dan ofal y gwasanaeth prawf yn cymryd rhan mewn triniaeth. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu'r defnydd o ofynion adsefydlu cyffuriau dwys i'r rhai ar ddedfrydau cymunedol, bydd yn dwysáu cyfundrefnau profi, ac yn cefnogi carcharorion i ymgysylltu â thriniaeth gymunedol cyn iddynt gael eu rhyddhau.<br><br>Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd yr Uned Taclo Cyffuriau ar y Cyd (JCDU) ganllawiau ar gyfer partneriaid cyflenwi lleol, sy'n esbonio'r fframwaith ar gyfer sut mae partneriaid lleol yn Lloegr, gan gynnwys maes iechyd, y gwasanaeth prawf, yr heddlu ac awdurdodau lleol, angen cydweithio i gyflawni nodau cyffredinol y Strategaeth Gyffuriau, yn ogystal â lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Yn sail i'r canllawiau hyn y mae'r Fframwaith Canlyniadau Taclo Cyffuriau Cenedlaethol sy'n cynnwys metrigau pennawd lefel uchel a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro'n strategol cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth Gyffuriau drwy Uwch Swyddogion Cyfrifol lleol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda’r MoJ i wella rhannu data er mwyn deall canlyniadau triniaeth am gamddefnyddio sylweddau yn well ar gyfer y rhai sydd yn y system cyfiawnder troseddol. Mae HMPSS Cymru yn mynychu gwahanol gyfarfodydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | chamddefnyddio sylweddau er mwyn sicrhau integreiddio agos ac i barhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru fel y'i nodwyd yn eu cynllun cyflenwi 2019-22 cyhoeddedig. | | |
| 3 | Deddfu i ehangu gallu'r gwasanaeth prawf i roi profion cyffuriau i bobl sy dan ofal y gwasanaeth prawf, fel bod y gwasanaeth yn gallu profi cyfran fwyaf o'i lwyth achos, i helpu i asesu ac adnabod pobl gyda phroblem gyffuriau all elwa ar driniaeth o bosibl. | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan fod meini prawf penodol gan y cynlluniau peilot sy'n rhedeg (manylir isod), ac nid oes cynllun ar hyn o bryd i ddeddfu ar gyfer profion cyffuriau ehangach i ganfod pobl â phroblem cyffuriau.<br><br>Bydd y Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd (PCSC) arfaethedig yn cynnwys pwerau i alluogi'r Llys i osod gofynion profi cyffuriau fel rhan o orchmynion cymunedol a Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig os bodlonir y ddau ofyniad canlynol:<br><br>(a) os yw'r llys yn fodlon bod camddefnydd y troseddwr o gyffur neu sylwedd seicoweithredol wedi achosi neu gyfrannu at y drosedd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi (neu drosedd gysylltiedig) neu'n debygol o achosi neu gyfrannu at gyflawni troseddau pellach; a<br><br>(b) bod y llys wedi'i hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod trefniadau ar gyfer gofynion profi cyffuriau ar gael yn ardal cyfiawnder lleol y troseddwr.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn fel rhan o gynlluniau peilot y Llys Datrys Problemau (PSC), sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Bil, cyn ystyried eu cyflwyno ymhellach.<br><br>Ar hyn o bryd mae HMPPS yn dilyn Bil Aelodau Preifat (PMB) ar gyfer Profion Cyffuriau Safleoedd Cymeradwy (AP). Mae'r mesurau'n cynnwys cyflwyno profion wrth dderbyn unigolion a phrofion ar hap, yn ogystal ag ymestyn yr ystod o gyffuriau y gall HMPPS brofi amdanynt, megis cyffuriau seicoweithredol a | Dirprwy Gyfarwyddwr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd | Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | meddyginiaeth presgripsiwn. Mae'r darlleniad cyntaf o’r Bil wedi'i drefnu ar gyfer 29 Hydref 2021. | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae’r Ddeddf Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd (PCSC) yn cynnwys pwerau i alluogi'r Llys i osod gofynion profi cyffuriau fel rhan o orchmynion cymunedol a Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig os bodlonir y ddau ofyniad canlynol:<br><br>(a) os yw'r llys yn fodlon bod camddefnydd y troseddwr o gyffur neu sylwedd seicoweithredol wedi achosi neu gyfrannu at y drosedd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi (neu drosedd gysylltiedig) neu'n debygol o achosi neu gyfrannu at gyflawni troseddau pellach; a<br><br>(b) bod y llys wedi’i hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod trefniadau ar gyfer gofynion profi cyffuriau ar gael yn ardal cyfiawnder lleol y troseddwr.<br><br>Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o gynlluniau peilot y Llysoedd Datrys Problemau.<br>Ym mis Gorffennaf 2022 cyhoeddwyd cynllun peilot Llysoedd Datrys Problemau. Bydd y cynllun peilot yn sefydlu dau lys camddefnyddio sylweddau a fydd yn cael eu lansio yn Llysoedd y Goron Lerpwl a Teesside, a bydd un arall yn Llys Ynadon Birmingham a fydd yn canolbwyntio ar fenywod sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau.<br><br>Daeth y Ddeddf Profi am Gyffuriau Mewn Mangreoedd a Gymeradwywyd (AP) i rym ym mis Ebrill 2022. Mae'r mesurau'n cynnwys cynnal profion wrth dderbyn i'r gwasanaeth a chynnal profion ar hap yn ogystal ag ymestyn yr ystod o gyffuriau y gall HMPPS gynnal profion brofi amdanynt, er enghraifft cyffuriau seicoweithredol a meddyginiaeth presgripsiwn. | Dirprwy Gyfarwyddwr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Darparu cyllid digonol er mwyn trin ac adfer pobl o ran cyffuriau ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau a phan fyddant dan ofal y gwasanaeth prawf. | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Mae ariannu gwasanaethau triniaeth cyffuriau a gwaith adferol wedi bod yn destun adolygiad annibynnol diweddar. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei hymateb cychwynnol i adolygiad y Fonesig Carol, lle mae'n derbyn yr angen dybryd i fynd i'r afael â her camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr a'r cyllid sydd ei angen i wneud hynny. Eleni, mae'r Llywodraeth wedi darparu £80 miliwn o arian newydd ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau triniaeth a gwaith adferol; mae tua hanner yr arian wedi'i gyfeirio at ymyriadau cyfiawnder troseddol. Os nad yw'r buddsoddiad o £80m a dderbyniwyd eleni yn parhau, neu os nad oes cyllid ychwanegol ar gyfer cyffuriau y cytunwyd arnynt drwy'r SR, efallai na fydd capasiti ac ansawdd gwasanaethau triniaeth i rai sy’n camddefnyddio sylweddau yn ddigonol i ddelio â’r atgyfeiriadau ychwanegol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn gweithio i wella parhad gofal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar drwy'r rhaglen RECONNECT, sy'n dechrau gweithio gyda phobl cyn iddynt adael y carchar ac yn eu helpu i bontio i wasanaethau yn y gymuned.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol o £2.5 miliwn mewn gwasanaeth RECONNECT gwell a fydd yn cefnogi troseddwyr ag anghenion cymhleth i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau eraill a chael y driniaeth gywir, am hyd at flwyddyn ar ôl cael eu rhyddhau.<br><br>Bydd Strategaeth Gyffuriau'r Llywodraeth, a fydd yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni, yn edrych yn fanylach ar gyllid yn y dyfodol, yn amodol ar gyfyngiadau ariannol.<br><br>HMPPS sy'n gyfrifol am ariannu triniaeth cyffuriau i bobl sydd dan ofal y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | Mawrth 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a HMPPS yn parhau i gefnogi datblygiad effeithiol gwasanaeth camddefnyddio sylweddau integredig system gyfan a gyd-gomisiynir. | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Cyhoeddwyd Strategaeth Gyffuriau Llywodraeth San Steffan ym mis Rhagfyr 2021. Trwy'r strategaeth gyffuriau rydym wedi sicrhau £750m o Arian Adolygu Gwariant (SR 2022-25) i ymateb i argymhellion adolygiad y Fonesig Carol Black ac i adeiladu system triniaeth ac adfer o'r radd flaenaf. Drwy'r arian hwn gallwn gefnogi pob Awdurdod Lleol i barhau i dderbyn o leiaf yr un swm o arian ag eleni a bydd y gefnogaeth i lwybrau troseddwyr yn parhau.<br><br>Mae canlyniadau'r Strategaeth Gyffuriau a chyllid SR a ddisgwylir erbyn 2024/25 yn cynnwys:<br><br>• Ehangu capasiti triniaeth yn raddol gydag o leiaf 54,500 o leoedd triniaeth newydd o ansawdd uchel - sef cynnydd 20%<br>• Lle mewn triniaeth yn y gymuned i bob troseddwr sydd angen triniaeth<br>• Cynyddu atgyfeiriadau i driniaeth gan y System Cyfiawnder Troseddol (CJS)<br>• Sicrhau bod carcharorion yn parhau mewn triniaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau<br><br>Mae GIG Lloegr yn parhau i gyflwyno gwasanaethau RECONNECT ar draws pob ardal ddaearyddol yn Lloegr ac maent ar darged i sicrhau bod y gwasanaethau RECONNECT yn cwmpasu pob ardal ddaearyddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | Cwblhawyd<br><br>Ebrill 2024 |
| 5 | sicrhau bod cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Lloegr a byrddau cynllunio ardal i Gymru yn darparu | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y gymuned, gan ddefnyddio cyllid o'r Grant | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, | Parhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | triniaeth cyffuriau ymatebol a darpariaethau adfer i bobl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau a phan fyddant dan ofal y gwasanaeth prawf. | | Iechyd Cyhoeddus, sydd wedi'i neilltuo i'w ddefnyddio ar swyddogaethau DHSC.<br><br>Mae angen i bartneriaid iechyd a chyfiawnder troseddol weithio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion pobl o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ac ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau adfer a thriniaeth yn lleol. O 2021/22, mae DHSC wedi'i gosod amod ar gyllid Grant Iechyd y Cyhoedd, sef bod yn rhaid i awdurdod lleol "roi sylw i'r angen i wella'r defnydd o'i wasanaethau triniaeth i rai sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a'r canlyniadau yn eu sgil, yn seiliedig ar asesiad o angen lleol a chynllun sydd wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid iechyd a chyfiawnder troseddol lleol".<br><br>Bydd canfyddiadau gwerthusiad Prosiect ADDER a rhaglenni Sbarduno ADDER, yn ogystal â'r buddsoddiad ychwanegol o £80 miliwn eleni, hefyd yn llywio gwaith yn y dyfodol a gwelliannau i gydweithio rhwng partneriaid iechyd a chyfiawnder troseddol.<br><br>Yng Nghymru, mae gwasanaeth camddefnyddio sylweddau integredig system gyfan wedi'i gyd-gomisiynu yn ei le. Bydd HMPPS yn parhau i weithio ochr yn ochr â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyd-gomisiynu a rheoli gwasanaethau'n effeithiol ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a thrwy'r Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn sicrhau bod trefniadau Cyfiawnder Troseddol a darpariaeth mynediad agored yn gyson. | Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae OHID wedi datblygu safon ansawdd comisiynu cenedlaethol newydd ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol, comisiynwyr, darparwyr, pobl sydd â phrofiad byw ac eraill. Mae'n nodi'r ystod lawn o ymyriadau triniaeth ac adferiad y dylai ardaloedd lleol eu darparu ar gyfer eu poblogaeth yn seiliedig ar asesiad o angen, gan gynnwys ateb anghenion troseddwyr drwy lwybrau a gofal cyfiawnder troseddol integredig, y mae enghreifftiau ohonynt wedi'u rhestru. I fod yn | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Caethiwed, Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghyfartaleddau (OHID), DHSC | Mawrth 2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwbl ymatebol i'r grŵp heterogenaidd hwn, mae'r safon yn rhoi sylw penodol i fynediad, llwybrau, a pharhad gofal i bobl sydd:<br>• o grŵp gwarchodedig a heb gynrychiolaeth ddigonol<br>• yn rhan o’r system cyfiawnder troseddol<br>• yn derbyn ymyrraeth(au) diogelu<br>• yn byw gydag amodau sy'n cyd-ddigwydd.<br><br>Mae 140 o 142 o Awdurdodau Lleol wedi dychwelyd eu cynlluniau Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau Atodol a'u Cynlluniau Adfer iddynt gael eu craffu gan dimau cenedlaethol a rhanbarthol OHID.<br><br>O 12 Medi 2022, cymeradwywyd 140 o gynlluniau a chyhoeddwyd cytundebau grant. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys rhagamcaniadau Awdurdod Lleol ar gyfer gwella'r ymgysylltiad â phobl sy'n gadael carchar â thriniaeth a chynlluniau ar gyfer recriwtio gweithwyr cyffuriau ym maes Cyfiawnder Troseddol i gefnogi mwy o DRRs.<br><br>Mae Kantar wedi cael ei gomisiynu i gynhyrchu Gwerthusiad o Broses ac Effaith Prosiect ADDER a disgwylir adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2023, a fydd yn llywio gwaith a gwelliannau i gydweithio rhwng partneriaid iechyd a chyfiawnder troseddol yn y dyfodol. | | |
| 6 | Cynyddu defnydd y gofynion adsefydlu cyffuriau drwy sicrhau bod asesiadau camddefnyddio sylweddau yn y llys yn cael eu cyflawni gan ymarferwyr sgilgar, a’u bod yn cyflwyno | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan mai darparwyr triniaeth, nid y Gwasanaeth Prawf sy'n gyfrifol am asesu addasrwydd triniaeth. Mae HMPPS hefyd yn cytuno'n rhannol ar yr argymhelliad hwn ar y dybiaeth mai bwriad y gair 'asesu' yn yr adroddiad thematig hwn yw adlewyrchu cyfrifoldebau presennol a sefydledig y Gwasanaeth Prawf: nodi angen, cytuno ar unrhyw | Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Grŵp Adsefydlu a Gwasanaethau Gofal | Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | sylwadau ar addasrwydd a chymhelliant ar gyfer triniaeth, ac yn helpu i osod y disgwyliadau ar gyfer diffynyddion. | | gynnig gyda staff triniaeth a gosod unrhyw gynnig yng nghyd-destun risg o niwed ac aildroseddu.<br><br>Bydd y cynnydd yn y defnydd priodol o Ofynion Adfer i ddefnyddwyr Cyffuriau (DRRs) yn cael ei gynllunio, ei gydlynu a'i fonitro drwy Ofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR)/Cynllun Cyflawni y Gwasanaeth Prawf ar gyfer Cyffuriau, a fydd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Fframwaith polisi gweithredol y Gofyniad Triniaeth Alcohol (ATR) / DRR;<br>• Canllawiau i Ddedfrydwyr ar Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR), gan gynnwys DRRs, sy'n anelu at gefnogi a chynyddu'r defnydd;<br>• HMPPS yn mapio'r cynnig cenedlaethol ar gyfer DRRs, gan gynnwys argaeledd staff camddefnyddio sylweddau i gynnal asesiadau llys;<br><br>Cydweithio â rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf i weithredu adnodd sgrinio'r Gwasanaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a llwybrau enghreifftiol i gynyddu'r broses adnabod a sbarduno cyswllt â'r rhai sydd angen triniaeth/ymyrraeth cyffuriau. | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Ceir cynnydd cyson o ran cynyddu'r defnydd o DRR ac ATRs. Ar gyfer y cyfnod Ionawr 22-Mawrth 22 mae Gofynion DRR 16% yn uwch yn erbyn y flwyddyn flaenorol (Ionawr 21-Mawrth 21).Ar gyfer yr un cyfnod mae Gofynion ATR i fyny 27%. Mae DRRs yn mynd yn ôl tuag at lefelau cyn COVID ac mae ATRau 7% yn uwch na'r lefelau cyn COVID (Ionawr 20-Mawrth 20)<br><br>Mae HMPPS yn parhau gyda gweithgarwch ehangu wedi'i gynllunio, gan gynnwys:<br>• Gweithio gyda Chynllun Peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu, gan adrodd i'r Grŵp Strategaeth Llysoedd Cenedlaethol (NCSG), i gynyddu argymhellion ar gyfer DRR/ATRs. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Grŵp Adsefydlu a Gwasanaethau Gofal | Ionawr 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Gwella arferion rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio (L&D) ac awduron Adroddiad Cyn-Ddedfrydau (PSR), gan gynnwys cyhoeddi set o egwyddorion craidd o rannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio GIG Lloegr a'r Gwasanaeth Prawf.<br>• Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth leol rhwng y Gwasanaeth Prawf a Darparwyr Triniaeth ar bob lefel, gyda chefnogaeth yr adnodd cydlynydd iechyd a chyfiawnder newydd.<br>• Bydd Profion Cyffuriau DRR yn cael eu darparu drwy Gontract Profi Cyffuriau HMPPS newydd. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn dechrau yn gynnar yn 2023<br>• Alinio'r prosiect Llysoedd Datrys Problemau gyda'r prosiect DRR/ATR ehangach<br>• Datblygu gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi SPOs Llysoedd y Gwasanaeth Prawf i godi proffil DRR/ATRs gyda'r Farnwriaeth<br>• Datblygu hyfforddiant a chanllawiau ategol i sicrhau bod staff y gwasanaeth prawf yn hyderus wrth gynnig a rheoli DRR ac ATR.<br>• Cwblhau cynllun peilot yn llwyddiannus i gefnogi Awduron PSR i adnabod unigolion sy'n addas ar gyfer ATR/DRR drwy offeryn sgrinio. Cwblhawyd gwaith dilynol gyda staff Prawf y Llysoedd i gasglu arferion effeithiol ac mae canllaw ymarfer yn cael ei ddatblygu<br>• Er mwyn rhoi hwb i nifer y DRRs yn y llys mae'r mesurau canlynol wedi'u rhoi ar waith: Mae'r Prif Swyddog Prawf (CPO) wedi gofyn i ranbarthau'r gwasanaeth prawf ddarparu targed ymestyn ar gyfer Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (CSTRs), yn seiliedig ar gyfrolau a chyfrannau gwarediadau. Mae targed y canlyniadau dedfrydu CSTR ar gyfer CSTRs wedi cael ei osod fel | | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnydd sydd o leiaf 20% o ran niferoedd ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Adlewyrchir hyn mewn cynnydd yn y targed cyfaint cenedlaethol o 24.4% yn CSTRs, gyda 24.8% yn DRRs, 22.8% mewn ATRs i gefnogi penderfyniadau ymarferydd, mae cwestiynau wedi'u hychwanegu at y Fframwaith Cynnig Effeithiol (EPF) i ysgogi awduron adroddiadau roi mwy o ystyriaeth i gynnig DRR, pan fydd y diffynnydd yn gymwys i bennu gofyniad triniaeth. Pan na ddewisir DRR gofynnir i'r ymarferydd roi rhesymau dros ddewis y cynnig arall. Mae hyn yn darparu deallusrwydd am y rheswm dros benderfynu nad yw achosion cymwys yn addas ac am pa mor aml y digwydd hynny. Mae hyn yn llywio cyfluniad targedu'r EPF.<br><br>Mae HMPPS yng Nghymru hefyd wedi gwneud gwaith eang i gynyddu niferoedd DRR / ATRs gan gynnwys mabwysiadu proses symlach ar gyfer asesu addasrwydd, ansawdd data ar y cyd ac ymarferion dilysu gyda darparwyr a chylchredeg cyfres o gyfathrebiadau wedi'u targedu at Ymarferwyr Prawf a Dedfrydwyr | | |
| 7 | Pennu cyfran y bobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf ym mhob ardal leol sy'n ddibynnol ar gyffuriau, a fyddai'n elwa ar driniaeth arbenigol a sicrhau bod y driniaeth hon ar gael i'r rheini sydd ei hangen. | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan nad yw HMPPS yn comisiynu nac yn darparu gwasanaethau ar gyfer cynnig triniaeth gyffuriau yn Lloegr, felly ni allwn 'sicrhau' bod triniaeth ar gael. Felly, ni allwn gytuno ar ail ran yr argymhelliad hwn. Felly, ni allwn gytuno ar ail ran yr argymhelliad hwn.<br><br>Fodd bynnag, mae HMPPS yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar lefel genedlaethol a lleol i ddylanwadu ar gomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl sydd wedi troseddu, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu a chryfhau'r maes hwn. Er enghraifft, cyflwyno Timau Integreiddio Cymunedol Rhanbarthol newydd sy'n gyfrifol am weithio mewn partneriaeth leol effeithiol, gan gynnwys gweithio gydag Awdurdodau Lleol, partneriaid Iechyd a Chyfiawnder | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Troseddol i asesu anghenion lleol a chyfrannu at gynllunio gwasanaethau triniaeth. A datblygu gwell trefn gofnodi ac adrodd er mwyn gwella gallu HMPPS i gefnogi proses gomisiynu a monitro gwasanaethau.<br><br>Mae HMPPS wedi ymrwymo i ddatblygu ein dealltwriaeth o gyfran y bobl sydd dan ofal y Gwasanaeth Prawf ag arnynt angen cyffuriau a sicrhau bod hyn yn llywio ymarfer y gwasanaeth prawf a gweithio mewn partneriaeth.<br><br>Bydd HMPPS yn ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen data sy'n gysylltiedig â chyffuriau'r gwasanaeth prawf. Bydd yn cydlynu gweithgarwch yng Nghynllun Cyflawni y Gwasanaeth Prawf ar gyfer Cyffuriau (a grybwyllir yn argymhelliad 13). Bydd y grŵp yn archwilio ac yn gweithio tuag at wella'r broses o adnabod, cofnodi ac adrodd ar anghenion cyffuriau a phobl sydd dan ofal y Gwasanaeth Prawf a fyddai'n elwa o driniaeth arbenigol. | | Ebrill 2022 |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae'r dangosfwrdd Gofyniad am Driniaeth Dedfrydu Cymunedol bellach wedi'i ymgorffori, a bydd dangosfwrdd cyffuriau ychwanegol a weithredwyd yn haf 2022 yn caniatáu i'r Gwasanaeth Prawf fonitro gofynion gweithgaredd a thriniaeth craidd gan y llys, gan y PDU a chan ranbarthau. Gall hyn gael ei groesgyfeirio yn erbyn angen a aseswyd drwy OASys a data ar angen cyffuriau a ddarperir gan OHID. Mae adroddiadau ar angen cyffuriau yn erbyn nifer/cyfran y DRRs yn ôl ardal bellach ar gael.<br><br>Mae HMPPS yng Nghymru yn ymgymryd â gweithgarwch comisiynu cynhwysfawr i gaffael gwasanaethau triniaeth arbenigol ar gyfer camddefnyddio sylweddau i Bobl sydd dan ofal y Gwasanaeth Prawf drwy gydol eu taith. Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud mewn dulliau arloesol, gan gynnwys gwasanaeth ymyrraeth oherwydd camddefnyddio sylweddau ar-lein, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau triniaeth yn hygyrch i bawb sydd eu hangen. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Sicrhau bod pob unigolyn sy’n gadael y ddalfa sydd angen triniaeth barhaus yn ei derbyn, gyda chefnogaeth trefniadau trosglwyddo effeithiol. | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn. Er bod HMPPS yn blaenoriaethu gwelliannau yn y maes hwn, rydym yn cydnabod na fydd modd cyflawni 100% ohonynt am amryw o resymau; gan gynnwys y nifer fach o bobl sy'n dewis peidio ag ymgysylltu â thriniaeth wrth gael eu rhyddhau. Mae hefyd yn adlewyrchu nad cyfrifoldeb HMPPS yn unig yw parhad gofal. Cyfrifoldeb DHSC yw darparu triniaeth cyffuriau yn y gymuned ac felly bydd angen i'r adran helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r argymhelliad hwn.<br><br>Bydd HMPPS yn adolygu’r polisi Parhad Gofal presennol i gynnwys dull gweithredu ar draws yr Asiantaeth o ran pwyntiau trosglwyddo rhwng cyfiawnder ac iechyd. Mae gwaith recriwtio ar y gweill i arwain y gwaith hwn.<br><br>Mae Tîm Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol HMPPS wedi comisiynu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i wella arferion rhannu gwybodaeth rhwng staff HMPPS a phartneriaid iechyd. Cytunir ar gylch gorchwyl ac amserlenni ar gyfer y gwaith yn fuan.<br><br>Bydd HMPPS yn gweithio mewn partneriaeth â DHSC i egluro'r broses o gofnodi parhad gofal ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o Delius i helpu’r Gwasanaeth Prawf i gofnodi a monitro dros y flwyddyn nesaf. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2022<br><br>Rhagfyr 2021<br><br>Rhagfyr 2021 |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae'r gwaith o ymestyn cwmpas y polisi Parhad Gofal presennol i gwmpasu'r carchar a'r Gwasanaeth Prawf yn parhau gyda dyddiad targed y cytunwyd arno o Ragfyr 2023 ar gyfer cwblhau, gan gydnabod cymhlethdod rhanddeiliaid a meysydd polisi i ymgysylltu. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar | Rhagfyr 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhannu Gwybodaeth ar y cyd wedi goruchwylio cynhyrchu'r ddau gynnyrch cyntaf ar gyfer staff carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. Mae cynllun cyflenwi ar waith gyda chynhyrchion pellach wrthi'n cael eu cynhyrchu - y bwriad yw cynnyrch Canllaw i Reolwyr a Chanllaw i'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi symud i Grŵp Cynghori sy'n darparu cyngor, arweiniad a chymorth i staff a phrosiectau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth iechyd a HMPPS. Bydd y grŵp yn goruchwylio adolygu Protocol Rhannu Gwybodaeth NHSE ar gyfer Ystâd Ddiogel a Dan Glo<br><br>Mewn partneriaeth â'r NHSE ac OHID, mae HMPPS yn parhau i ddatblygu proses i alluogi i'r gwasanaeth prawf gofnodi a monitro gwybodaeth am barhad gofal. Bydd hwn yn borth cenedlaethol syml newydd i hysbysu'r gwasanaeth prawf o atgyfeiriadau i driniaeth gymunedol, a fydd yn cael ei gefnogi gan dîm gweinyddol canolog bach y Gwasanaeth Prawf i oruchwylio cofnodi, gweithredu ac adrodd yn gyson. Nid yw'r dyddiad lansio targed wedi'i gadarnhau eto gan yr holl bartneriaid, a'r bwriad yw cynnal rhywfaint o waith ymgysylltu yng Nghymru. | Gamddefnyddio Sylweddau | Cwblhawyd<br><br><br><br><br><br><br><br>Rhagfyr 2023 |
| 9 | Sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth ac adfer yn cael eu comisiynu a'u darparu. | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br>Fel rhan o Gynllun Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf ar gyfer Cyffuriau, cymerir y camau canlynol:<br><br>- Sicrhau ein bod yn diwallu anghenion Pobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf sy'n camddefnyddio cyffuriau drwy archwilio a datblygu ymyriadau ymhellach yn unol â risg, angen a lefel ymateb, er mwyn galluogi Rhanbarthau i flaenoriaethu a chyflwyno/comisiynu ymyriadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n diwallu anghenion lleol a POP orau. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Partneriaethau Aildroseddu | Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Comisiynu llwybrau dibyniaeth ac adfer yn rhanbarthol a gefnogir gan Ffrwd Waith Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Prawf. | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Ar hyn o bryd mae pob rhanbarth y Gwasanaeth Prawf yn ymgysylltu â'r tîm masnachol cenedlaethol i gaffael gwasanaethau i gefnogi ymyriadau Dibyniaeth ac Adfer, bydd hyn yn cynnwys cymysgedd o ddulliau uniongyrchol a chyd-gomisiynu. Cynrychiolir y Gwasanaeth Prawf hefyd ar bob Partneriaeth Taclo Cyffuriau leol, a fydd yn helpu i ddylanwadu ar sut mae arian newydd a ddarperir i gomisiynwyr awdurdodau lleol yn cael ei gyfeirio at gefnogi blaenoriaethau cyfiawnder troseddol. Bydd cyd-leoli staff y darparwr prawf a darparwr cyffuriau yn rhan gref yn y contractau hyn.<br><br>Mae HMPPS yng Nghymru wedi cydweithio'n agos gyda darparwyr triniaethau i weithio tuag at ymestyn darpariaeth ac argaeledd gwell gwasanaethau ar gyfer trin cyffuriau ledled Cymru. Mae HMPPS yng Nghymru hefyd yn gweithio'n agos â'r rhai sydd â phrofiad byw, gan gynnwys trwy eu cyflogi'n uniongyrchol, i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u trefnu'n briodol i ateb anghenion Pobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Partneriaethau Aildroseddu | Cwblhawyd |
| 10 | Gweithredu cynllun gwaith i adeiladu diwylliant gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau proffesiynol perthnasol, a sicrhau bod hyn yn ddefnydd effeithiol o ddarpariaethau cyfnewid gwybodaeth. | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill ar draws HMPPS, ac ochr yn ochr â phartneriaid, i wella ein gwaith ar y cyd. Byddwn yn cynnwys y gwaith hwn o fewn Cynllun Cyflawni y Gwasanaeth Prawf ar gyfer Cyffuriau i sicrhau bod y gweithgarwch yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gyffuriau arfaethedig y Llywodraeth ac y gellir ei chydlynu, ei rhaglennu a'i rhannu'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i ddiffinio dulliau a chyrff proffesiynol perthnasol i fesur effeithiolrwydd cyfnewid gwybodaeth. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Partneriaethau Aildroseddu | Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae rhanbarthau'r gwasanaeth prawf ledled Cymru a Lloegr yn gyfrifol am ddatblygu ac ymgorffori diwylliant cydweithio lleol gan gynnwys:<br><br>• Goruchwylio ac atebolrwydd arferion prawf lleol ac ymgorffori datblygiadau newydd yn rhan o ymarfer.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar arferion gwaith lleol sy'n cefnogi diwylliant cydgysylltiedig e.e. cymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MO'U)/Cytundebau Rhannu Gwybodaeth (ISA), ystadau a rennir, cyfrannu at gynlluniau Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM).<br><br>Adolygu hyfforddiant yn unol ag argymhelliad 13, i ystyried yn benodol ofynion diwylliant, cydweithio a chofnodi. | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae HMPPS wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar nifer o brosiectau ac wedi rhannu amcanion dros y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>○ Mae'r Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol wedi'i arolygu i ehangu i'r Gwasanaeth Prawf, gan ddarparu fframwaith, nodi ein bwriad o gydweithio tuag at ganlyniadau a rennir. Cyhoeddi disgwyliedig Hydref 2022.<br>○ Mewnbwn HMPPS i ganllawiau partneriaeth cyffuriau lleol JCDU.<br>○ Gweithio ar y cyd i oruchwylio a chyflwyno DRRs ac ATRs.<br>○ Mae'r rhaglen CSTR yn rhaglen bartneriaeth.<br>○ Gweithdy HMPPS ac Adydd y Swyddfa Gartref ar y cyd.<br><br>Bydd y Grŵp Cyffuriau yn dwyn ynghyd ac yn arwain cyfeiriad strategol HMPPS y gwaith hwn o fis Awst 2022 ymlaen. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Partneriaethau Aildroseddu | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Lansiodd HMPPS Grŵp Camddefnyddio Sylweddau newydd ym mis Gorffennaf 2022. Bydd y Grŵp yn gweithio ar draws HMPPS gan arwain ar strategaeth camddefnyddio sylweddau diwygiedig. Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd swyddogaethau a gynhaliwyd yn flaenorol ar draws timau gwahanol yn HMPPS ac yn cryfhau ein gallu sefydliadol i adeiladu diwylliant sydd nid yn unig yn cefnogi gweithio ar y cyd mewn gwasanaethau Prawf, ond yn ehangach ar draws HMPPS yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r tîm yn gwneud gwaith sy'n cael ei ariannu drwy'r setliad SR sy'n cwmpasu'r ddalfa a'r gymuned. Mae'n hwyluso recriwtio Arweinwyr Strategaeth Gyffuriau mewn carchardai a Chydlynwyr Iechyd a Chyfiawnder yn y Gwasanaeth Prawf. Bydd y rolau hyn yn ymestyn ar draws cymorth adfer sylweddau drwy'r carchar ac i'r gymuned, gan hyrwyddo gwell parhad gofal i unigolion.<br><br>Dechreuodd y broses genedlaethol o gyflwyno Cydlynwyr Iechyd a Chyfiawnder ym mis Ebrill 2022. Ar hyn o bryd mae HMPPS yn symud y broses genedlaethol o gyflwyno'r Cydlynydd Iechyd a Chyfiawnder a rolau Arweiniol ledled Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn cyflwyno rolau pwrpasol, arbenigol a fydd, yn lleol, yn arwain ar ddatblygu rhwydweithiau partneriaeth, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i yrru diwylliant gwaith ar y cyd i wella gwaith i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, i leihau aildroseddu ac i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd yr adnoddau hyn yn darparu arbenigedd a gallu pwrpasol i symud ymlaen tuag at gyflawni yn lleol yn erbyn y strategaeth gyffuriau draws-Lywodraethol.<br><br>Mae'r grŵp Rhannu Gwybodaeth a Gorffen ar y cyd a gadeirir ar y cyd gan HMPPS a NHSE wedi darparu fforwm i drafod a symud ymlaen i wella ymarfer mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng ac o fewn ein sefydliadau. Mae pwrpas cychwynnol y grŵp wedi'i fodloni a bydd Grŵp Cynghori ar Rannu Gwybodaeth yn gweithredu fel swyddogaeth fusnes-fel-arfer. Darparu fforwm i drafod a throsglwyddo gwybodaeth a chyfnewid arferion gorau rhwng ein sefydliadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | i archwilio'r ffordd fwyaf priodol o gefnogi parhad gofal. Bydd y grŵp yn parhau i gwrdd gyda chynlluniau sydd ar waith i ddatblygu canllawiau arfer da penodol ar gyfer rhannu data Prawf.<br><br>Mae gwaith ar y cyd HMPPS gydag OHID DAIST hefyd yn cefnogi diwylliant gwaith ar y cyd a datblygu partneriaeth leol fel rhan o gynlluniau cyflawni 'parhad gofal camddefnyddio sylweddau CJTF' Datblygu, profi, a chyflwyno parhad offeryn hunanasesu gofal ar gyfer partneriaethau lleol i asesu eu strwythurau, eu data a llwybrau sy'n gysylltiedig â pharhad gofal. Bydd y profion yn dod i ben erbyn Rhagfyr 2022.<br><br>Mae HMPPS yng Nghymru hefyd wedi cynnal cyfres o weithgareddau i atgyfnerthu diwylliant gweithio ar y cyd, gan gynnwys ymgysylltu â phrosiect BOLD a chefnogi cyflwyno deilliannau perfformiad aml-asiantaeth. | | |
| 11 | Mesur a chyhoeddi deilliannau i bobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf gyda phroblem gyffuriau, megis cyflawni ymyriadau seicogymdeithasol; lleihau defnydd o gyffuriau anghyfreithlon; llai o droseddu; gwelliannau i iechyd meddwl; gwelliannau mewn deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; a deilliannau llety gwell. | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan y rhagwelir y byddai rhai elfennau o'r argymhelliad yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol na chynlluniwyd a/neu newidiadau ar raddfa fawr i arferion heb eu cynnwys yn y gweithgarwch a gynlluniwyd i ymgorffori'r gwasanaeth Prawf unedig newydd. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ymyrraeth seicogymdeithasol a chanlyniadau iechyd meddwl.<br><br>Bydd HMPPS yn creu dangosfwrdd ar gyfer is-set o Bobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf sy'n camddefnyddio cyffuriau. Caiff hyn ei gomisiynu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Data y Gwasanaeth Prawf. Bydd y dangosfwrdd yn fodd i wneud dadansoddiad lleol a chenedlaethol o allbynnau a chanlyniadau, i'w ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio, darparu a gweithio mewn partneriaeth. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2022 |
| | | | **Diweddariad 12 Mis** | | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Dangosfwrdd Camddefnyddio Cyffuriau'r Gwasanaeth Prawf wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn parhau i ddatblygu wrth i fetrigau newydd i gefnogi Strategaeth Gyffuriau Traws Llywodraeth gael eu cytuno. Cyfrifoldeb darparwyr lleol gwasanaethau triniaeth cyffuriau fydd adrodd ar gwblhau ymyrraeth seico-gymdeithasol. Rydym bellach yn gallu croesgyfeirio data OHID gyda data HMPPS yn ymwneud ag anghenion cyffuriau wedi'u hasesu ledled y deyrnas unedig. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | |
| 12 | Gwella diogelwch pobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf drwy:<br>a. cynyddu mynediad i naloxone a darpariaeth ohono;<br>b. lleihau nifer y bobl sy'n marw o achosion penodol i gyffuriau drwy wella systemau i adolygu marwolaethau penodol i gyffuriau, gan gynnwys adolygiadau digwyddiadau fu bron â digwydd, a chryfhau rhannu dysgu ystyrlon rhwng asiantaethau;<br>c. datblygu rhaglenni dysgu sy'n galluogi staff i gyflawni lleihau niwed effeithiol ac atal gorddosau i weithio gyda phobl â phroblemau cyffuriau;<br>d. sicrhau bod pob ymarferydd rheng-flaen yn deall ac yn rhoi camau ar waith i | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Bydd Gweithgor Marwolaethau dan Oruchwyliaeth yn cael ei ffurfio erbyn hydref 2021 i arwain a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gwreiddio trefniadau a fframwaith polisi newydd ar gyfer Marwolaethau dan Oruchwyliaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno swyddogaeth Dysgu a Gwaith Achos newydd i gydlynu a lledaenu dysgu i ymarferwyr rheng flaen.<br><br>Bydd HMPPS yn adeiladu ar gyflwyno naloxone i Safleoedd Cymeradwy ac yn archwilio'r model mwyaf priodol ar gyfer ei gyflwyno'n ehangach. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2022 |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Mae darparu naloxone ar waith ar draws yr holl Adeiladau a Gymeradwywyd. Mae tystiolaeth dda bod hyn wedi achub bywydau pan fo argyfwng. Mae'r gwaith o gyflwyno naloxone yn ehangach yn cael ei wneud yn gymuned ac mewn lleoliadau dalfa ac mae fframwaith gweithredol [i ddod ym mis Ebrill 2023] yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn. Mae prosiectau cymunedol peilot yn y gwasanaeth prawf ar y gweill a byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith gweithredol.<br><br>Mae is-grŵp i adolygu dysgu o Farwolaethau Dan Oruchwyliaeth (DUS) ar waith gyda chefnogaeth y tîm diogelwch mewn carchardai sy'n coladu data o adroddiadau DUS ac ymchwiliadau PPO. Bydd y grŵp hwn yn lledaenu dysgu allweddol yn ôl i HMPPS (diweddariadau pob dwy flynedd wedi'u cynllunio). Ar lefel | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddiogelu oedolion mewn perygl. | | leol, bydd canllawiau'n cael eu darparu i'r adnodd cydlynydd iechyd a chyfiawnder newydd i ymgysylltu â phartneriaethau taclo cyffuriau lleol wrth iddynt adolygu strwythurau adolygu "panel marwolaeth oherwydd cyffuriau" lleol i sicrhau bod dysgu'n cael ei ledaenu i dimau lleol. Mae gwaith i'w wneud o hyd ar gipio a choladu dysgu o ddigwyddiadau "a fu bron yn digwydd" ond bydd hyn yn cael ei ddatblygu wrth i strwythurau cenedlaethol a lleol aeddfedu.<br><br>Bu adolygiad cynhwysfawr o ddysgu a datblygu camddefnyddio sylweddau ar draws HMPPS ac mae rhaglen L&D newydd ei chomisiynu yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer ei gyflwyno'n raddol i staff yn 2023. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifoldebau o ran diogelu oedolion sydd mewn perygl. | | |

| **Dylai'r Gwasanaeth Prawf:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Lansio a gweithredu strategaeth gyffuriau effeithiol a pholisïau perthnasol er mwyn:<br>a. sicrhau bod llywodraethu effeithiol yn llywio arferion effeithiol ac ymatebol er mwyn taclo camddefnyddio sylweddau<br>b. gwella data a systemau gwybodaeth er mwyn casglu proffil ac anghenion data pobl dan ofal y Gwasanaeth Prawf, i gefnogi comisiynu effeithiol gwasanaethau cyffuriau ar lefel leol. Dylai hyn gynnwys newidiadau i'r adnodd asesu OASys i alluogi rheolwyr prawf i | Cytunwyd yn rhannol | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn, gan fod rhai elfennau o'r argymhelliad na ellir eu datblygu'n llawn ar hyn o bryd:<br><br>• Yn unol ag argymhelliad 3, bydd pwerau profi cyffuriau o dan y Bil PCSC yn cael eu treialu o fewn Llysoedd Datrys Problemau, cyn eu hystyried ymhellach. Yn ogystal â hyn, bydd HMPPS yn blaenoriaethu gwaith i sicrhau bod galluoedd profi cyfredol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gyson, yn unol â datblygu polisi a'r adnoddau sydd ar gael.<br>• Mae cyflwyno model lled-arbenigol y tu allan i'r fframwaith a nodir ym Model Gweithredu Targed y Gwasanaeth Prawf. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad hyfforddi arfaethedig yn archwilio sut | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | echdynnu nifer yr unigolion ar lwythi achos prawf sy’n ddefnyddwyr cyffuriau dosbarth A ac er mwyn tracio faint ohonynt sy’n derbyn triniaeth bryd hynny. Dylid datblygu hefyd maes penodol yn Delius i gofnodi canlyniadau profion cyffuriau;<br>c. comisiynu gwasanaethau priodol i daclo caethiwed i gyffuriau a chefnogi adferiad;<br>d. cynyddu’r defnydd o brofion cyffuriau rheolaidd, mewn gorchmynion a thrwyddedau cymunedol perthnasol, fel adnodd ar gyfer asesu, monitro a chydymffurfio cychwynnol, gan gynnwys archwilio’r potensial er mwyn treialu profion cyffuriau yn yr apwyntiad cyntaf er mwyn mesur graddfa’r defnydd o gyffuriau dosbarth A nad yw’n cael ei adrodd;<br>e. sicrhau bod profion cyffuriau ar gyfer pob gofyniad adsefydlu cyffuriau ar gael i’r llys, os yw dan fandad;<br>f. cyflwyno model cyffuriau lled-arbenigol fel bod ymarferwyr prawf sy’n gweithio gyda gofynion adsefydlu cyffuriau’n datblygu mwy o hyder a gwybodaeth o drefniadau lleol a pherthnasoedd gwell gydag asiantaethau partner; | | y gall hyfforddiant gefnogi Ymarferwyr sydd â gwahanol lefelau o brofiad a sgiliau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio fel rhan o dimau Rheoli Troseddwyr Integredig.<br><br>Bydd Strategaeth Gyffuriau arfaethedig y Llywodraeth yn nodi'r dull llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â chamddefnyddio, cyflenwi a’r galw am gyffuriau.<br><br>Mae'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y gwasanaeth prawf, yn ganolog i hyn. Bydd MoJ a HMPPS yn adolygu ein gwaith i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Strategaeth Gyffuriau'r Llywodraeth a blaenoriaethau ar draws y system gyfan.<br><br>Hefyd bydd Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyffuriau’n cael ei greu’n benodol i gydgysylltu a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a'r gweithgarwch allweddol a wneir mewn ymateb i argymhellion Arolygiaeth Prawf EM. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys:<br><br>• Datblygu ac ymgorffori trefn lywodraethu genedlaethol effeithiol i lywio ymarfer ac ymateb effeithiol;<br>• Ffurfio Gweithgor Data Cyffuriau y Gwasanaeth Prawf i wella systemau data a chofnodi yn unol ag argymhellion 7 ac 11;<br>• Cydweithio â'r Rhaglen Ddiwygio y Gwasanaeth Prawf ac eraill i gydlynu a datblygu cyfres genedlaethol o ymyriadau a chefnogi comisiynu rhanbarthol yn unol ag argymhelliad 9;<br>• Datblygu cynnig hyfforddiant sy'n seiliedig ar anghenion y gellir ei ddarparu ar sail adnoddau y cytunwyd arnynt;<br>• Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno tudalen cofnodi profion cyffuriau Delius newydd, a fydd yn mynd yn fyw yn hydref 2021. Bydd yn safoni'r broses o gofnodi profion cyffuriau (a wneir gan y Gwasanaeth Prawf neu pan gaiff y canlyniadau eu rhannu gan ddarparwr triniaeth) a bydd yn hwyluso’r drefn adrodd i'r llys. Mae hyn yn rhan o waith ehangach sydd ar y gweill (yn unol ag argymhelliad 6) i gryfhau'r defnydd effeithiol o DRRs. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd<br><br>Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | g. gwella hyfforddiant i staff ar gyffuriau, sut i weithio gyda thrawma a sut i gefnogi pobl tuag at adferiad. | | | | |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>**Gweler yr ymateb i argymhelliad 2.**<br><br>Mae'r Gweithgor Data Cyffuriau'r Gwasanaeth Prawf wedi cwblhau ei waith i sicrhau bod Delius ac OASys yn cael eu diweddaru i gipio data yn well. Gwnaed mwyafrif y diweddariadau i systemau ac mae rhai eraill yn aros am slotiau amser newid systemau.<br><br>Ar hyn o bryd mae pob rhanbarth y Gwasanaeth Prawf yn ymgysylltu â'r tîm masnachol cenedlaethol i gaffael gwasanaethau i gefnogi ymyriadau Dibyniaeth ac Adfer, bydd hyn yn cynnwys cymysgedd o ddulliau uniongyrchol a chyd-gomisiynu. Cynrychiolir y Gwasanaeth Prawf hefyd ar bob Partneriaeth Taclo Cyffuriau leol, a fydd yn helpu i ddylanwadu ar sut mae arian newydd a ddarperir i gomisiynwyr awdurdodau lleol yn cael ei gyfeirio at gefnogi blaenoriaethau cyfiawnder troseddol. Bydd cyd-leoli staff y darparwr prawf a darparwr cyffuriau yn rhan gref yn y contractau hyn.<br><br>Mae caffael yn digwydd ar hyn o bryd i gynyddu'r ddarpariaeth cynnal profion cyffuriau ar Ofynion Adsefydlu Cyffuriau gan staff y Gwasanaeth Prawf. Mae'r adnodd staffio wedi cael ei gynyddu yn unol â tharged staffio. Mae canllawiau'n cael eu hysgrifennu i gefnogi prosesau newydd. Gweithredu erbyn Ionawr 23. Mae recordio profion cyffuriau wedi'i ddiweddaru a'i symleiddio er mwyn caniatáu cynhyrchu gwell gwybodaeth rheoli a gwell gwybodaeth am achosion.<br><br>Adolygwyd hyfforddiant craidd ar gamddefnyddio sylweddau i staff y Gwasanaeth Prawf a chomisiynwyd pecyn hyfforddi cenedlaethol newydd gyda chomisiynwyr L&D HMPPS. Bydd hwn yn cael ei ychwanegu at y rhaglen Hyfforddiant Prawf Craidd ar gyfer staff ar ôl ei gwblhau. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Troseddwyr Benywaidd a Pholisi Iechyd Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Rhagfyr 2022<br><br>Cwblhawyd<br><br>Ionawr 2023<br><br>Ebrill 2023 |

| Dylai'r Gwasanaeth Prawf a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol weithio gydag adrannau iechyd lleol i: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu lleol addas ar waith fel bod pob partner perthnasol, gan gynnwys Byrddau Iechyd a Lles a gwasanaethau lleol ynghlwm wrth gynllunio, comisiynu a chyflawni gwasanaethau ar y cyd effeithiol i bobl gyda phroblemau cyffuriau, fel cyfraniad mawr at leihau troseddau lleol. | Cytunwyd | **Camau gweithredu a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn dilyn yr adolygiad yn 2021**<br><br>Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn sicrhau bod Timau Integreiddio Cymunedol a staff prawf eraill yn ymgysylltu â phartneriaid perthnasol ac yn cydlynu partneriaethau (gan gynnwys y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r Byrddau Iechyd a Lles) a bod effeithiolrwydd yr ymgysylltu yn cael ei fonitro drwy strwythurau llywodraethu prawf mewnol. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Ebrill 2022 |
| | | | **Diweddariad 12 Mis**<br><br>Nodwyd bod y Gwasanaeth Prawf yn bartner allweddol ar Fyrddau Partneriaeth Taclo Cyffuriau newydd ac mae pob rhanbarth yn dweud eu bod yn ymwneud â'r rhain yn lleol.<br><br>Mae adnoddau'r Cydlynydd Iechyd a Chyfiawnder newydd yn cael eu defnyddio ar draws rhanbarthau (Medi i Dachwedd 2022) a bydd y rhain yn allweddol i ymgysylltu â phartneriaethau iechyd lleol, yn benodol wrth i Fyrddau Partneriaeth Gofal Integredig newydd ddatblygu. Mae dull llywodraethu/cydgysylltu cenedlaethol yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol allweddol yn ogystal â blaenoriaethau lleol yn cael eu gweithredu drwy'r adnoddau lleol hyn. | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Dwyrain Lloegr ac Arweinydd ar Gamddefnyddio Sylweddau | Cwblhawyd<br><br><br>Rhagfyr 2022 |

| Argymhellion | |
|---|---|
| Cytunwyd | 8 |
| Cytunwyd yn rhannol | 6 |

| | |
|---|---|
| Ni Chytunwyd | 0 |
| **Cyfanswm** | 14 |